

Adolygiad Blynyddol LTL Cymru 2009

Learning through Landscapes
Grounds for Learning
Learning through Landscapes Cymru

Ysbrydoli plant i ddysgu a chwarae yn yr awyr agored

Llwyddiannau allweddol

Yn ein blwyddyn lawn gyntaf rydym ni wedi:

- arwain y tîm a ddatblygodd y **modiwl hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored ar gyfer pecyn hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen** er mwyn rhoi profiadau awyr agored o ansawdd ar waith.
- hyfforddi a chynorthwyo Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen i **feithrin gallu ymarferwyr** mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru.
- cefnogi plant ac athrawon Ysgol Iau Cwmaber i gyflawni **Maes Chwarae Delfrydol** a gweddnewid eu maes chwarae'n lleoliad i'r holl ddisgyblion ei fwynhau.
- cynnal ein **Cynhadledd LTL Cymru** gyntaf i ysgogi ymarferwyr a gweithwyr addysg proffesiynol o bob cwr o Gymru i fod yn weithgar ac yn arloesol yn yr awyr agored.
- **Codi proffil** mentrau Awyr Agored Blynyddoedd Cynnar yn y **cyfryngau cenedlaethol** drwy ddenu sylw yn *TES Cymru* a'r *South Wales Echo*, yn ogystal â chyhoeddiadau allweddol eraill.
- cynnal **hyfforddiant a gweithdai ymarferol a phoblogaidd i dros 850 o bobl** yng nghynadleddau hyfforddiant Estyn a Chyfnod Sylfaen Llywodraeth y Cynulliad.

Croeso

Eleni, cafodd miloedd o blant ledled Cymru eu hannog a'u helpu i fynd allan i chwarae a dysgu yn yr awyr agored diolch i waith LTL Cymru. Cafodd ein tîm groeso brwd gan ysgolion a chanolfannau'r blynyddoedd cynnar o Fôn i Fynwy, ac rydym yn falch o weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i sicrhau cyfleoedd dysgu a chwarae cyffrous i blant yn yr awyr agored.

Rydym yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn er mwyn cynnig rhaglen o gymorth a syniadau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda rhanddeiliaid hen a newydd fel bod pob plentyn yn cael cyfle i fwynhau profiadau gwych yn yr awyr agored. Yn y cyfamser, dyma flas o'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma…

Kath Blunt (uchod ar y dde)
Rheolwr LTL Cymru

Hyrwyddo arfer gorau

Cwblhau modiwl hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored y Cyfnod Sylfaen oedd un o amcanion cyntaf y tîm, a chyflawnwyd hyn ym mis Gorffennaf 2008. Yna, hyfforddwyd Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen ar gynnwys y modiwl er mwyn iddynt fod yn hyderus wrth ei ddysgu i'r holl ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru.

Datblygodd y tîm bum modiwl pwrpasol ar ddysgu a chwarae yn yr awyr agored. Nod y modiwlau yw datblygu ymarfer a darpariaeth awyr agored ymarferwyr, yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf, ac maent yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus yn rhad iawn i leoliadau, ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae dros 800 o ymarferwyr blynyddoedd cynnar o bob cwr o Gymru wedi elwa ar ein harbenigedd drwy amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi. Cynhaliwyd gweithdai yn ein cynhadledd genedlaethol gyntaf erioed, a fu'n llwyddiant ysgubol gyda dros 70 o gynrychiolwyr.

Hefyd, cynhaliwyd diwrnodau hyfforddi ar ran Llywodraeth y Cynulliad, Cynhalwyr Cymru a Phartneriaeth Dysgu a Hyfforddi Cymru.

Mae gwefan LTL Cymru wedi prysuro'n fawr yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, yn ystod mis Mawrth 2009, edrychwyd ar y safle 597 o weithiau'r dydd ar gyfartaledd. Mae'r safle dwyieithog yn parhau i gynnig newyddion a chyngor sy'n benodol i Gymru.

Er mwyn cynorthwyo ymarferwyr ymhellach, cyfrannwyd yn sylweddol at *Adroddiad 2009 ar Brofiadau Dysgu Awyr Agored y Cyfnod Sylfaen a'r Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Gall athrawon ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar weld nifer cynyddol o astudiaethau achos ar ein gwefan. Hefyd mae Mesur Llwyddiant - canllaw ar werthuso prosiectau meysydd chwarae ar gael bellach yn y Gymraeg a'r Saesneg a gellir ei lawrlwytho am ddim.

Yn y dyfodol byddwn yn:

- darparu digwyddiad Hyfforddiant i Ymartfer (cwrs achredu LTL ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio i ddatblygu mannau awyr agored) ym mis Chwefror 2010 i gynyddu ein rhwydwaith proffesiynol.
- ehangu ein hyfforddiant i ysgolion drwy becyn aelodaeth LTL Cymru.
- datblygu Pecyn Cymorth Blynyddoedd Cynnar gyda Llywodraeth y Cynulliad.
- cyfrannu at gynadleddau Cyfnod Sylfaen Llywodraeth y Cynulliad yn 2010.
- datblygu ac ehangu ein pecynnau hyfforddiant a chymorth er mwyn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant o'u geni tan eu bod yn 19 oed.

Darparu rhaglenni arloesol

Cyflwynwyd newidiadau ymarferol gwirioneddol drwy ein prosiect Maes Chwarae Delfrydol a phum prosiect Supergrounds, gan drawsnewid meysydd chwarae i gannoedd o blant. Yn ôl gwerthusiad cenedlaethol o'r ysgolion a gymerodd ran, roedd 91 y cant yn credu fod trawsnewid tir eu hysgol wedi cyflwyno ffyrdd newydd o addysgu a dysgu; credai 89 y cant fod eu plant yn cael mwy o hwyl ac yn hapusach a bod eu disgyblion yn treulio awr ychwanegol yr wythnos ar gyfartaledd yn dysgu a chwarae yn yr awyr agored.

Yn y dyfodol byddwn yn:

- ceisio lansio rhaglen dwy flynedd newydd, Ysgolion Ffrwythlon, i sefydlu perllannau treftadaeth mewn 15 ysgol ledled Cymru.
- gweithio â CyMAL i ddatblygu mannau awyr agored o ansawdd mewn amgueddfeydd a llyfrgelloedd yng Nghymru.
- datblygu pecyn datblygiad proffesiynol parhaus 'Arwain Dysgu Awyr Agored' ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar.
- gweithio â chydweithwyr ledled y DU i ddatblygu a darparu rhaglenni a chymorth i bawb sydd am ddefnyddio a gwella eu mannau awyr agored.

'Modiwl da iawn, llawn gwybodaeth a hawdd ei ddefnyddio'

Un o'r Swyddogion

Dylanwadu ar bolisi

Mae gwleidyddion yng Nghymru wedi bod yn awyddus i gefnogi'n gwaith. Daeth Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i agoriad maes chwarae newydd enillydd ein Maes Chwarae Delfrydol, gan ddweud: 'Mae'n galonogol gweld cyfraniadau cadarnhaol y disgyblion, ar gyfer eu datblygiad personol eu hunain ac ar gyfer eu cymuned.'

Mae Nick Bourne, Aelod y Cynulliad, wedi cefnogi'n hymgyrch trwy Brydain 'Love School Grounds'. Rydym hefyd wedi cyfarfod gweinidogion eraill, i bwyso am newidiadau mewn polisi.

Rydym yn parhau i ledaenu gwaith ymchwil a gwerthuso sy'n dangos pa mor werthfawr yw dysgu a chwarae yn yr awyr agored. Er enghraifft, datgelodd ein harolwg o 700 o ysgolion a oedd wedi gwella tir eu hysgolion fod 65 y cant wedi gweld gwelliant mewn agwedd at ddysgu, 73 y cant wedi gweld gwelliant mewn ymddygiad, 52 y cant wedi gweld gwell cyflawniadau academaidd ac 85 y cant wedi gweld cynnydd mewn chwarae egnïol.

Yn y dyfodol byddwn yn:

- gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a CLILC i sicrhau bod tir yr ysgol yn cael ei integreiddio i'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif.
- hyfforddi arolygwyr sy'n cynnal yr Arolwg Ysgolion Cymru Gyfan i gynnwys tir yr ysgol yn eu harchwiliad, yna dwyn ynghyd, dadansoddi a lledaenu'r data.

‘Modiwl da, llawn gwybodaeth a hawdd ei ddefnyddio’

Adborth gan gynrychiolydd

Codi’n proffil

Mae ein straeon newyddion wedi ymddangos yn y wasg genedlaethol yng Nghymru ac rydym wedi ysgrifennu erthyglau ar gyfer cylchgronau arbenigol fel *Nursery World*. Cafwyd erthygl tudalen lawn yn argraffiad Cymru o *The Times Educational Supplement* yn trafod ein cynhadledd genedlaethol gyntaf erioed gydag erthygl tudalen lawn.

Lansiwyd y dathliadau yn Ysgol Iau Cwmaber gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Cafodd y digwyddiad sylw yn y *South Wales Echo* ac ar wefannau BBC Cymru a Llywodraeth y Cynulliad.

Fe’n gwahoddwyd i siarad mewn nifer o gynadleddau blaenllaw a gynhaliwyd gan sefydliadau eraill sy’n rhannu ein diddordeb mewn cael plant allan i’r awyr agored, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad ac Estyn. Manteisiodd y cynadleddau hyn ar ein harbenigedd mewn gwaith awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’n cylchlythyr electronig newydd yn cael ei ddosbarthu bob tymor i bob ysgol a lleoliad, awdurdod lleol a sefydliadau eraill sy’n rhannu ein diddordeb mewn cael plant allan i’r awyr agored. Derbyniodd pob awdurdod lleol ein cyhoeddiad *Opening Doors* sy’n amlinellu ein pecynnau cymorth.

Yn y dyfodol byddwn yn:

- trefnu ein hail gynhadledd genedlaethol ym mis Mai 2010 gyda’r thema allweddol ‘Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Awyr Agored’
- cyhoeddi fersiynau dwyieithog o gyhoeddiadau LTL, gan gynnwys *Agor Drysau*, taflenni aelodaeth a deunyddiau hyfforddi.



Ennill cefnogaeth

Trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y maes, gallwn atgyfnerthu ein neges i hyrwyddo dealltwriaeth o werth a phwysigrwydd tir yr ysgol. Yn ogystal â sefydlu perthynas agos â Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Estyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Real World Learning Partnership Cymru, fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu a menter Llefydd i Natur y BBC.

Yn y dyfodol byddwn yn:

- ehangu’r tîm yn LTL Cymru i gynnal a chynyddu ein gwaith ar y cyd â phartneriaid allweddol megis awdurdodau lleol, cyrff y llywodraeth a chyrff anllywodraethol.

Ynglŷn â Learning through Landscapes Cymru

Os ydych chi am siarad â’r tîm am ddigwyddiad hyfforddiant pwrpasol neu am weithgareddau a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf, e-bostiwch cymru@ltl.org.uk neu ewch i’n gwefan: www.ltl-cymru.org.uk

Learning through LANDSCAPES CYMRU™

I gael gwybod mwy ewch i www.ltl-cymru.org.uk

Rhifau elusen gofrestredig: Cymru a Lloegr 803270. Yr Alban SCO38890.
Swyddfa gofrestredig:: Third Floor, Southside Offices, The Law Courts, Winchester, S023